

Public Document Pack

Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

Bridgend County Borough Council

Swyddfeydd Dinesig, Stryd yr Angel, Pen-y-bont, CF31 4WB / Civic Offices, Angel Street, Bridgend, CF31 4WB



Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Rhowch wybod i ni os mai Cymraeg yw eich dewis iaith.

We welcome correspondence in Welsh. Please let us know if your language choice is Welsh.



Cyfarwyddiaeth y Prif Weithredwr / Chief Executive's Directorate
Deialu uniongyrchol / Direct line /: 01656 643148 / 643694 / 643513
Gofynnwch am / Ask for: Gwasanaethau Democrataidd

Ein cyf / Our ref:
Eich cyf / Your ref:

Dyddiad/Date: Dydd Mercher, 1 Hydref 2025

Annwyl Cyngorydd,

IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU (B)

Cynhelir Cyfarfod Is-Bwyllgor Trwyddedu (B) mynychu trwy Siambr y Cyngor, Swyddfeydd Dinesig, Stryd yr Angel, Pen-y-bont ar Ogwr / o bell Trwy Timau Microsoft ar **Dydd Mawrth, 7 Hydref 2025** am **10:00**.

AGENDA

1 Ymddiheuriadau am absenoldeb

Derbyn ymddiheuriadau am absenoldeb gan Aelodau.

2 Datganiadau o fuddiant

Derbyn datganiadau o ddiddordeb personol a rhagfarnol (os o gwbl) gan Aelodau / Swyddogion yn unol â darpariaethau'r Cod Ymddygiad Aelodau a fabwysiadwyd gan y Cyngor o 1 Medi 2008.

3 Cymeradwyaeth Cofnodion

3 - 18

I dderbyn am gymeradwyaeth y Cofnodion cyfarfod y 07/01/2025 Cofnodion ar Is-bwyllgor Deddf Trwyddedu 2003 (B) o'r cyfarfodydd ar 21/01/2025, 29/04/2025 a 30/04/2025

4 Materion Brys

I ystyried unrhyw eitemau o fusnes y, oherwydd amgylchiadau arbennig y cadeirydd o'r farn y dylid eu hystyried yn y cyfarfod fel mater o frys yn unol â Rhan 4 (pharagraff 4) o'r Rheolau Trefn y Cyngor yn y Cyfansoddiad.

5 Gwahardd y Cyhoedd

Nid oedd y cofnodion ac adroddiadau sy'n ymwneud â'r eitemau canlynol yn cael eu cyhoeddi, gan fod eu bod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraffau 12 o Ran 4 a Pharagraff 21 o Ran 5, Atodlen 12A, Deddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i newidiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Cymru) 2007 (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio).

Os, yn dilyn cymhwyso'r prawf budd y cyhoedd yn yr Is-Bwyllgor yn penderfynu yn unol â'r Ddeddf i ystyried yr eitemau hyn yn breifat, bydd y cyhoedd yn cael eu gwahardd o'r cyfarfod yn ystod ystyriaeth o'r fath.

6 Cymeradwyaeth Cofnodion wedi'u Eithrio

19 - 26

I dderbyn am gymeradwyaeth y Cofnodion eithrio cyfarfod y 07/01/2025

7 Gwrandawriad Disgyblu - Gyrrwr Cerbyd Hacni a Hurio Preifat

27 - 52

Nodyn: Bydd hwn yn gyfarfod Hybrid a bydd Aelodau a Swyddogion mynychu trwy Siambr y Cyngor, Swyddfeydd Dinesig, Stryd yr Angel, Pen-y-bont ar Ogwr / o bell Trwy Timau Microsoft. Bydd y cyfarfod cael ei recordio i'w drosglwyddo drwy wefan y Cyngor. Os oes gennych unrhyw gwestiwn am hyn, cysylltwch â cabinet_committee@bridgend.gov.uk neu ffoniwch 01656 643148 / 643694 / 643513 / 643159

Yn ddiffuant

K Watson

Prif Swyddog, Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddio, AD a Pholisi Corfforaethol

Dosbarthiad:

Cynghorwr:

H T Bennett

C Davies

S Easterbrook

H Griffiths

RM James

P W Jenkins

R Williams

IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU (B) - DYDD MAWRTH, 7 IONAWR 2025

COFNOD O BENDERFYNIAD CYFARFOD O'R IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU (B) A GYNHALIWDYD HYBRID IN THE COUNCIL CHAMBER - CIVIC OFFICES, ANGEL STREET, BRIDGEND, CF31 4WB AR DYDD MAWRTH, 7 IONAWR 2025 10:00

Yn bresennol

Y Cyngorydd H T Bennett – Cadeirydd

S Easterbrook

Yn Bresennol yn Rhithiol

C Davies

R M James

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

H Griffiths, P W Jenkins a R Williams

Swyddogion:

Kirsty Evans
Katie Wintle
Nimi Chandrasena
Oscar Roberts

Uwch Swyddog Trwyddedu
Cyfreithiwr
Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Cefnogaeth
Prentis Gweinyddu Busnes - Gwasanaethau Democrataidd

Datganiadau o Fuddiant
Dim.

62. Cymeradwyo Cofnodion

Penderfyniad	<u>PENDERFYNWYD:</u>	Cymeradwyo Cofnodion Is-bwyllgor Trwyddedu B dyddiedig 23/07/24
--------------	----------------------	---

IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU (B) - DYDD MAWRTH, 7 IONAWR 2025

	fel cofnod gwir a chywir.
Dyddiad y Penderfyniad	7 Ionawr 2025

63. Eitemau Brys

Penderfyniad	Dim.
Dyddiad y Penderfyniad	7 Ionawr 2025

64. Eithrio'r Cyhoedd

Penderfyniad	<u>PENDERFYNWYD:</u> Bod y cyhoedd, dan Adran 100A (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007, yn cael eu heithrio o'r cyfarfod wrth ystyried yr eitemau nesaf o fusnes, gan eu bod yn cynnwys gwybodaeth esempt fel y'i diffinnir ym Mharagraff 12 o Ran 4 a Pharagraff 21 o Ran 5 Atodlen 12A y Ddeddf. Ar ôl cymhwyso'r prawf budd cyhoeddus, penderfynwyd, yn unol â'r Ddeddf y cyfeirir ati uchod, ystyried yr eitem ganlynol yn breifat, gyda'r cyhoedd wedi'i heithrio o'r cyfarfod, gan yr ystyrid, ym mhob amgylchiadau sy'n ymwneud â'r eitem, bod y budd cyhoeddus o ran parhau gyda'r wybodaeth esempt yn drech na'r budd cyhoeddus o ddatgelu'r wybodaeth, oherwydd y byddai'r wybodaeth yn rhagfarnu o blaid yr ymgeisydd dan sylw.
Dyddiad y Penderfyniad	7 Ionawr 2025

65. Cymeradwyo Cofnodion wedi'u Heithrio

Penderfyniad	<u>PENDERFYNWYD:</u> Cymeradwyo Cofnodion Eithriedig Is-bwyllgor Trwyddedu B dyddiedig
--------------	--

IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU (B) - DYDD MAWRTH, 7 IONAWR 2025

	23/07/24 fel cofnod gwir a chywir.
Dyddiad y Penderfyniad	7 Ionawr 2025

66. Gwrandawriad Disgyblu - Gyrrwr Cerbyd Hacni a Llogi Preifat

Penderfyniad	Nid yw'r penderfyniad sy'n ymwneud â'r eitem hon ar gael i'r cyhoedd gan fod yr adroddiad wedi'i eithrio.
Dyddiad y Penderfyniad	7 Ionawr 2025

Er mwyn edrych ar y drafodaeth bellach a gafwyd ar yr eitemau uchod, cliciwch y [ddolen](#) hon

Daeth y cyfarfod i ben am 11:37.

This page is intentionally left blank

IS-BWYLLGOR DEDDF TRWYDDEDU 2003 (B) - DYDD MAWRTH, 21 IONAWR 2025

COFNOD O BENDERFYNIAD CYFARFOD O'R IS-BWYLLGOR DEDDF TRWYDDEDU 2003 (B) A GYNHALIWDYD HYBRID IN THE COUNCIL CHAMBER - CIVIC OFFICES, ANGEL STREET, BRIDGEND, CF31 4WB AR DYDD MAWRTH, 21 IONAWR 2025 10:00

Presennol

Y Cyngorydd R Williams – Cadeirydd

RM James

Presennol – O Bell

H T Bennett

Swyddogion:

Kirsty Evans
Andrea Lee
Michael Pitman
Oscar Roberts

Uwch Swyddog Trwyddedu
Uwch Cyfreithiwr
Swyddog Gwasanaethau Democrataidd – Pwyllgorau
Business Administrative Apprentice - Democratic Services

Datganiadau o Ddiddordeb

78. Caniatáu Trwydded Safle ar gyfer Clwb Rygbi Blaengarw, 40 Stryd Victoria, Pontycymer, Pen-y-bont ar Ogwr CF31 8NW

Y penderfyniad a wnaed	Mae'r Is-bwyllgor wedi penderfynu caniatáu'r drwydded gyda'r amodau a ganlyn: 1. Rhaid i'r safle gynnal system recordio teledu cylch cyfyng digidol sy'n gallu recordio 31 diwrnod o recordiad 24 awr gyda monitor allan o olwg a chyrraedd y cwsmeriaid. Cedwir delweddau am gyfnod o 31 diwrnod. Bydd yr offer wedi'u diogelu'n briodol gyda mynediad
------------------------	---

IS-BWYLLGOR DEDDF TRWYDDEDU 2003 (B) - DYDD MAWRTH, 21 IONAWR 2025

	cyfyngedig. Bydd y system TCC yn cynnwys yr holl fannau y mae gan y cyhoedd fynediad iddynt yn yr eiddo a bydd yn cynnwys mynedfeydd ac allanfeydd. Bydd y system TCC yn cael ei chynnal a'i gweithredu bob amser y mae'r eiddo ar agor i'r cyhoedd. Bydd delweddau ar gael ar gais ac o fewn 7 diwrnod i'r Heddlu neu swyddogion gorfodi eraill naill ai i USB, disg neu drwy'r system NICE a ddefnyddir gan Heddlu De Cymru, ar gais cyfreithlon gan swyddog yr Heddlu neu swyddog Awdurdod Lleol am ddim. 2. Bydd arwyddion yn cael eu harddangos o fewn y safle a rhaid iddynt ddangos bod polisi cyffuriau dim goddefgarwch yn cael ei weithredu. 3. Cofnodi achosion o wrthod gwerthu 'nwyddau â chyfyngiad oedran', i bersonau sy'n ymddangos yn dan oed, ar ffurf 'Cofrestr Gwrthod'. Y Gofrestr i'w chadw yn y safle a bod ar gael i unrhyw Swyddog Awdurdodedig ar gais i'w harchwilio. 4. Bydd arwyddion yn cael eu harddangos ei bod yn anghyfreithlon i unrhyw berson geisio prynu alcohol i berson dan 18 oed. 5. Gweithredu a gweithredu 'Cynllun Her 25' i gynnwys: Arddangos arwyddion rhybudd priodol i'r perwyl y bydd unrhyw bersonau sy'n ymddangos yn iau na 25 oed yn cael eu herio mewn perthynas â nwyddau â chyfyngiad oedran. Arwyddion o'r fath i'w harddangos wrth fynedfa'r Adeilad, a lle mae alcohol yn cael ei arddangos. Bydd staff yn gofyn i unrhyw gwsmeriaid sy'n ymddangos yn iau na 25 oed ddangos ffurf dderbyniol o ID pan fyddant yn ceisio prynu alcohol.
Dyddiad gwneud y penderfyniad	21 Ionawr 2025

I arsylwi dadl bellach a gynhaliwyd ar yr eitemau uchod, cliciwch ar y ddolen [hon](#)

Terfynwyd y cyfarfod yn 10:45

IS-BWYLLGOR DEDDF TRWYDDEDU 2003 (B) - DYDD MAWRTH, 29 EBRILL 2025

COFNOD O BENDERFYNIAD CYFARFOD O'R IS-BWYLLGOR DEDDF TRWYDDEDU 2003 (B) A GYNHALIWYD HYBRID IN THE COUNCIL CHAMBER - CIVIC OFFICES, ANGEL STREET, BRIDGEND, CF31 4WB AR DYDD MAWRTH, 29 EBRILL 2025 10:00

Presennol

Y Cyngorydd R Williams – Cadeirydd

S Easterbrook

P W Jenkins

Presennol – O Bell

Ymddiheuriadau am Absenoldeb
Dim.

Swyddogion:

Andrea Lee
Daniel Cook
Nimi Chandrasena
Oscar Roberts

Uwch Cyfreithiwr
Swyddog Trwyddedu
Swyddog Gwasanaethau Democrataidd – Aelodau a Maerol
Prentys Busnes Gweinyddol Gwasanaethau Democrataidd

Datganiadau o Ddiddordeb
Dim.

81. Caniatáu Trwydded Safle ar gyfer Siop Pendre, 24 Pendre, Pen-y-bont ar Ogwr, CF31 1PE

Y penderfyniad a wnaed	Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Swyddog Trwyddedu, a'i bwrpas oedd penderfynu ar roi trwydded safle ar gyfer Pendre Stores.
------------------------	---

	<u>PENDERFYNWYD:</u> Cynhaliodd yr Is-bwyllgor Trwyddedu wrandawriad ar 29 Ebrill 2025 i ystyried y cais hwn a wnaed gan yr Ymgeisydd. Mynychwyd y gwrandawriad gan yr Ymgeisydd, ei gynrychiolydd Mr Bartlett, y Swyddog Trwyddedu Mr Daniel Cook ynghyd â Miss Pickett, gwrthwynebydd. <u>DEUNYDD GER BRON YR IS-BWYLLGOR</u> Ar ddechrau'r gwrandawriad, roedd gan yr Is-bwyllgor adroddiad gan Swyddog Trwyddedu'r Cyngor ynghyd â sylwadau ysgrifenedig gan 3 gwrthwynebydd. <u>SYLWADAU A WNAED GAN YR YMGEISYDD</u> Esboniodd Cynrychiolydd yr Ymgeisydd y dylid caniatáu'r cais fel set gadarn o amodau a gynigir, yn dangos manwerthwr cyfrifol ac yn bwysicaf oll nid yw'r awdurdodau cyfrifol wedi codi unrhyw wrthwynebiadau, nid oes gan yr Heddlu na lechyd yr Amgylchedd unrhyw bryderon, a'r rhain yw'r rhai sydd â'r dasg o gynnal yr amcanion Trwyddedu. Denodd y cais 3 gwrthwynebiad gan drigolion lleol ac mae eu cwynion wedi cael eu hystyried yn ofalus a chmau wedi cael eu cymryd i fynd i'r afael â nhw. Dim ond canran fach o'r gwerthiannau fydd alcohol, a bydd tua 5% o'r cyfanswm o werthiannau. Gwrthwynebodd un preswlydd yr amser gorffen 10pm ar gyfer gwerthu alcohol a chytunodd yr ymgeisydd yn wirfoddol i leihau'r amser i 7pm sy'n gonsesiwn sylweddol. Mae'r Gwrthwynebwyr yn sôn am barcio yn eu gwrthwynebiadau, ac ni ellir ystyried hyn ar gyfer y penderfyniad trwyddedu. Mae'r Ymgeisydd hefyd wedi cynnig amodau ychwanegol fel rhan o'r cais megis her 25, teledu cylch cyfyng ac arwyddion yn gofyn i gwsmeriaid beidio ag yfed alcohol yn y stryd. <u>SYLWADAU GAN Y GWRTHWYNEBYDD</u> Eglurodd y Gwrthwynebydd fod y stryd a'r ardal wedi dioddef o ymddygiad gwrthgymdeithasol a difrod troseddol. Roedd caniau cwrw wedi'u gadael ym mhobman a hyd yn oed yn y parc lleol lle mae'r plant yn chwarae. Eglurodd ei bod wedi cael ymgais i fyrgleriaeth yn ei heiddo yn ddiweddar a bod ei pherthynas anabl yn cysgu ar y llawr gwaelod yng nghefn y tŷ. Esboniodd hefyd fod siopau'n gwerthu alcohol 100 llath i bob cyfeiriad. Dywedodd y gwrthwynebydd fod y swyddfa bost wedi bod ar agor ers 70 mlynedd ac nad oedd erioed wedi gwerthu alcohol ac yn anffodus roedd gan nifer o bobl oedd yn defnyddio'r Ysbyty broblemau. Am y rhesymau hyn y dywedodd nad yw hi'n deall pam mae angen gwerthu alcohol o'r safle hwn. <u>CANFYDDIAD YR IS-BWYLLGOR</u> Mae'r Is-bwyllgor wedi penderfynu, ar ôl darllen a chlywed gwrthwynebiadau'r trigolion, ei bod yn debygol bod problem gydag ymddygiad gwrthgymdeithasol yn yr ardal.
--	--

IS-BWYLLGOR DEDDF TRWYDDEDU 2003 (B) - DYDD MAWRTH, 29 EBRILL 2025

	<u>PENDERFYNIAD</u> Rhaid i'r Is-bwyllgor, wrth wneud penderfyniadau, hyrwyddo'r amcanion trwyddedu statudol ac yn benodol, atal niwsans cyhoeddus. Mae'r Is-bwyllgor wedi ystyried y sylwadau a wnaed gan yr ymgeisydd ynghyd â sylwadau ysgrifenedig a llafar y gwrthwynebwyr. Mae'r Is-bwyllgor hefyd wedi ystyried Deddf Trwyddedu 2003, ynghyd â'r canllawiau a pholisi'r Cyngor. Mae'r Is-bwyllgor wedi penderfynu y byddant yn rhoi'r Drwydded i werthu Alcohol i'w yfed oddi ar y safle rhwng yr amseroedd canlynol: Dydd Llun i ddydd Sul 0800-1900 Bydd yr amodau ychwanegol a gynigiwyd gan yr Ymgeisydd yn ei gais hefyd yn cael eu hychwanegu at y Drwydded. Wrth benderfynu ar oriau trwyddedu 0800-1900, ystyriodd yr Is-bwyllgor y sylwadau gan y gwrthwynebwyr a oedd yn dangos problem gydag ymddygiad gwrthgymdeithasol yn yr ardal honno, a thrwy gyfyngu gwerthu alcohol i 1900 o'r gloch, bydd yn cyfyngu ar y cynnydd posibl yn yr ymddygiad hwn yn yr ardal hon.
Dyddiad gwneud y penderfyniad	29 Ebrill 2025

I arsylwi dadl bellach a gynhaliwyd ar yr eitemau uchod, cliciwch ar y [ddolen](#) hon

Terfynwyd y cyfarfod yn 10:44

This page is intentionally left blank

IS-BWYLLGOR DEDDF TRWYDDEDU 2003 (B) - DYDD MERCHER, 30 EBRILL 2025

COFNOD O BENDERFYNIAD CYFARFOD O'R IS-BWYLLGOR DEDDF TRWYDDEDU 2003 (B) A GYNHALIWYD HYBRID IN THE COUNCIL CHAMBER - CIVIC OFFICES, ANGEL STREET, BRIDGEND, CF31 4WB AR DYDD MERCHER, 30 EBRILL 2025 10:00

Presennol

Y Cyngorydd R Williams – Cadeirydd

H Griffiths

RM James

Swyddogion:

Kirsty Evans
Mark Galvin
Katie Wintle
Helen Pembridge

Uwch Swyddog Trwyddedu
Uwch Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau
Cyfreithiwr
Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir

82. Ymddiheuriadau am absenoldeb

Y penderfyniad a wnaed	Dim
Dyddiad gwneud y penderfyniad	30 Ebrill 2025

83. Datganiadau o fuddiant

Y penderfyniad a wnaed	Dim
Dyddiad gwneud y penderfyniad	30 Ebrill 2025

**84. Deddf Trwyddedu 2003: Hysbysiad Digwyddiad Dros Dro Adran 104
Gwrthwynebiad i Hysbysiad gan lechyd yr Amgylchedd ar gyfer Bar
Llofft Pen-y-bont ar Ogwr**

Y penderfyniad a wnaed	Cyflwynodd Rheolwr y Tîm Trwyddedu adroddiad, a'i bwrpas oedd gofyn i'r Is-bwyllgor ystyried a phenderfynu ar Hysbysiad Gwrthwynebu a gyflwynwyd gan lechyd yr Amgylchedd, mewn ymateb i Hysbysiad Digwyddiad Dros Dro (HDDD) a gyflwynwyd i'r Awdurdod Trwyddedu ar gyfer 1 Arcêd Nolton a 20 Stryd Nolton, Pen-y-bont ar Ogwr. Ar ôl i'r Cadeirydd ofyn i'r mynychwyr gyflwyno eu hunain, cynhaliwyd dadl ar y cais fel a ganlyn. HYSBYSIAD PENDERFYNU Cynullodd yr Is-bwyllgor Trwyddedu y gwrandawriad hwn ar 30 Ebrill 2025 i ystyried y cais a wnaed gan yr Ymgeisydd. Mynychwyd y gwrandawriad gan yr Ymgeisydd, Mr Daniel Apsee, yng nghwmni Mr Rhodri Apsee, a Helen Pembridge - Rheolwr Tîm Pen-y-bont ar Ogwr a'r Fro (Gorfodi Tai a Rheoli Llygredd) o Wasanaethau Rheoliadol a Rennir (GRhR). DEUNYDD GERBRON YR IS-BWYLLGOR Ar ddechrau'r gwrandawriad, gerbron yr Is-bwyllgor roedd adroddiad gan Swyddog Trwyddedu'r Cyngor; copi o'r Cais am HDDD, copi o amodau'r drwydded safle a'r hysbysiad gwrthwynebu gan GRhR. Gerbron yr Is-bwyllgor hefyd roedd tystiolaeth ychwanegol a ddarparwyd gan GRhR na ddarparwyd yn yr adroddiad cychwynnol. Roedd yr Ymgeisydd hefyd wedi derbyn copi o'r un dystiolaeth. SYLWADAU A WNAED GAN YR YMGEISYDD Cadarnhaodd yr Ymgeisydd mai ef yw deiliad y drwydded safle a'i fod wedi cyflwyno cais am HDDD ar gyfer penwythnos gŵyl banc mis Mai. Dywedodd fod amseroedd ansafonol wedi'u tynnu o'r drwydded ar hyn o bryd fel y gallai weithredu'n llawn ar ôl 23:00 ar ddydd Sul Gŵyl y Banc. Mae'r rhain yn ddyddiau sylweddol i'r busnes lle byddent yn edrych i fod ar agor a gallu cynhyrchu refeniw. Byddai'r HDDD y gofynnwyd amdano yn weithredol tan 01:00 ac roedden nhw am gael yr awr neu ddwy ychwanegol i fod ar agor i gwsmeriaid. Dywedodd yr Ymgeisydd fod y drwydded bresennol yn anghyson ag amseriadau. Gallent agor tan 00:30 i chwarae cerddoriaeth a chael cerddoriaeth fyw tan 00:00, ond cawsant eu cwtogi gyda'r mater o werthu alcohol gan nad ydyn nhw'n cynhyrchu unrhyw incwm yn ystod y cyfnod hwn – yn gryno, roedd am ymestyn hynny fel bod yr oriau gwerthu alcohol yn cyd-fynd ag ochr adloniant y busnes.
------------------------	--

	Cydnabu'r Ymgeisydd bryderon gan GRhR a chadarnhaodd ei fod yn ceisio gweithio gyda nhw i liniaru'r cwynion. Roedd yn aros am Ymgynghorydd Sŵn i gadarnhau dyddiadau er mwyn mesur y sŵn sy'n dod o'r safle. Gofynnodd aelod o'r Is-bwyllgor am yr hysbysiadau a gyflwynwyd i'r Ymgeisydd ac eglurwyd ei fod yn cyfeirio at gyflwyno hysbysiadau atal yn flaenorol. Dywedodd yr Ymgeisydd fod un hysbysiad wedi'i gyflwyno y llynedd ac roedd hynny'n cael ei ystyried ac mae gohebiaeth wedi mynd yn ôl ac ymlaen gyda GRhR ynglŷn â hyn. Roedd yr hysbysiad atal arall yn destun dadl ar hyn o bryd gan iddo ddweud ei fod wedi cael ei gyflwyno i aelod o staff, yn hytrach nag iddo fe ei hun fel prif ddefnyddiwr y safle, felly nid oedd wedi cael golwg ar hwn. Roedd deialog barhaus wedi bod rhwng Mr Apsee a GRhR ynglŷn â'r cwynion sŵn gan gynnwys cyfarfodydd wyneb yn wyneb ar y safle. Roedd Mr Apsee wedi archebu a thalu am osod drws newydd i liniaru'r sŵn, ac roedd staff hefyd yn cadw cofnodion amser, er enghraifft yn sefyll y tu allan i safleoedd cyfagos gyda dyfais recordio sŵn ac yn coladu taenlen at y diben hwn, dros y 3 mis diwethaf. Cadarnhaodd ei fod wedi siarad ag Ymgynghorydd Sŵn ddydd Llun diwethaf, ond nid yw wedi clywed yn ôl ganddo yr wythnos hon. Dywedodd ei fod yn siarad â pherson arall a oedd yn fwy lleol er mwyn gallu mynychu, i ystyried hyn ymhellach cyn gynted â phosibl. SYLWADAU A WNAED GAN WASANAETHAU RHEOLIADOL A RENNIR Dywedodd Helen Pembridge, ar ran GRhR fel Rheolwr Tîm Rheoli Llygredd Pen-y-bont ar Ogwr, fod y drwydded safle ar gyfer The Loft wedi'i rhoi ym mis Hydref y llynedd. Torrwyd hysbysiad atal ar 26 Hydref 2024 ar lawr cyntaf bar The Loft. Arsylwyd niwsans sŵn hefyd ar ail lawr y bar dec uchaf ac felly cyflwynwyd hysbysiad pellach i reolwr y safle. Cadarnhaodd fod yr Ymgeisydd yn dadlau hyn a byddai hyn yn cael ei ystyried fel mater ar wahân y tu allan i'r gwrandawriad. Ar 26 Ebrill 2025, derbyniwyd cwyn bellach yn ymwneud â sŵn o'r bar dec uchaf. Mae GRhR wedi bod yn paratoi achos i erlyn am yr achos cyntaf o dorri'r hysbysiad ond wedi gohirio hyn gan fod yr Ymgeisydd wedi dangos parodrwydd i gydweithredu ac i drefnu bod Ymgynghorydd Sŵn yn dod i fesur lefelau sŵn ar y safle. Trafodwyd hyn ym mis Ionawr 2025 ac mae negeseuon e-bost wedi cael eu cyfnewid, fodd bynnag, erbyn mis Mawrth 2025, nid oedd hyn wedi symud ymlaen ymhellach ac mae cwynion sŵn yn parhau i ddod i law.
--	---

	Cynhaliwyd cyfarfod ar y safle gyda'r Ymgeisydd ar 11 Mawrth diwethaf a rhoddodd GRhR gyngor cyffredinol i ddefnyddiwr y safle yn ogystal â manylion Ymgynghorwyr Sŵn lleol. Cynigiodd GRhR hefyd siarad yn uniongyrchol ag unrhyw ymgynghorydd ac i gynorthwyo i gael mynediad at eiddo'r achwynydd, ond hyd yn hyn, nid yw Mr. Apsee wedi cysylltu â nhw i gadarnhau bod ymweliad gan Ymgynghorydd Sŵn wedi cael ei drefnu. Mynychodd swyddog ar 26 Ebrill 2025 ac roedd y prif ddrws a'r ffenestri i'r dec uchaf ar agor bryd hynny. Roedd sŵn y cwsmeriaid a oedd y tu allan i'w glywed yn glir y tu mewn i eiddo'r achwynydd ac felly gwnaed gwrthwynebiad i'r HDDD, gan eu bod o'r farn ei fod yn tanseilio'r amcanion trwyddedu ac nad oes unrhyw fesurau lliniaru i reoli'r sŵn wedi cael eu cynnig hyd yn hyn. Cadarnhaodd y Swyddog o GRhR mai dim ond un achwynydd oedd wedi bod yn gwneud cwynion hyd yn hyn. Cadarnhaodd yr Ymgeisydd fod un ffenestr fach iawn ar agor at ddibenion awyru ac ymddengys mai cwsmer agorodd hon gan ei bod hi'n noson gynnes. Gofynnodd yr Ymgeisydd beth fyddai angen i GRhR ei weld ganddynt? Sut maen nhw'n gwybod bod y sŵn yn deillio o'r cwsmeriaid? A sut bydd gwerthu alcohol yn lliniaru cwynion sŵn gan fod eu trwydded ar gyfer chwarae cerddoriaeth tan 00:30 beth bynnag? Cynghorodd y Swyddog GRhR fod sŵn cwsmeriaid y safle y tu allan i'r safle wedi cael ei arsylwi ac roedd yn glywadwy, ac roedd hi'n teimlo nad oedd y sŵn yn cael ei reoli, fodd bynnag, y niwsans sŵn o'r safle a wnaed mewn cwynion blaenorol oedd dan sylw yn bennaf. Dywedodd hefyd fod y swyddog a oedd yn bresennol ar y pryd yn gallu gweld cwsmeriaid yn glir y tu allan i'r adeilad ac fe ddaeth i'r casgliad nad oedd y sŵn yn deillio o'r traffig a oedd yn mynd heibio. Mewn perthynas â'r pwynt am werthu alcohol, dywedodd pe bai'r holl gwsmeriaid yn gadael y safle yn gynharach, yna byddai unrhyw niwsans sŵn dros gyfnod byrrach o amser ac ni fyddai problem sŵn mwyach yn ddiweddarach y noson honno i'r oriau mân. Roedd yr Ymgeisydd yn anghytuno â hyn a dywedodd y byddai ganddynt gyfnod byr o amser i symud 200-300 o bobl am 11:00pm a byddai hyn yn achosi mwy o broblemau nag y byddai dros gyfnod hirach o amser. CANFYDDIADAU'R IS-BWYLLGOR Canfu'r Is-bwyllgor, wrth bwysu a mesur tebygolrwydd, fod yr Ymgeisydd wedi methu â mynd i'r afael yn ddigonol â'r mater o sŵn gormodol o'r safle a'i fod wedi methu â bwrw ymlaen i drefnu ymweliad gan Ymgynghorydd Sŵn mewn modd amserol. Nododd yr Is-bwyllgor fod deialog wedi bod rhwng yr Ymgeisydd a'r GRhR, fodd bynnag mae'r Ymgeisydd yn parhau i fod mewn sefyllfa lle nad oes unrhyw
--	---

IS-BWYLLGOR DEDDF TRWYDDEDU 2003 (B) - DYDD MERCHER, 30 EBRILL 2025

	fesurau wedi'u rhoi ar waith i liniaru lefelau sŵn ac o ganlyniad, mae cwynion parhaus yn dod i law. PENDERFYNWYD: Wrth wneud ei benderfyniad, nododd yr Is-bwyllgor ofyniad i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu statudol ac, yn benodol, atal niwsans cyhoeddus. Roedd yr Is-bwyllgor wedi ystyried y dogfennau a ddarparwyd a'r sylwadau llafar a wnaed gan yr Ymgeisydd a'r Gwrthwynebydd, GRhR, ac wedi ystyried ymhellach Ddeddf Trwyddedu 2003, y canllawiau statudol a gyhoeddwyd o dan y Ddeddf a Pholisi Trwyddedu'r Cyngor. Penderfynodd yr Is-bwyllgor gyhoeddi gwrth-hysbysiad ar gyfer yr hysbysiad digwyddiad dros dro gan eu bod yn cytuno y byddai caniatáu i'r digwyddiad fynd rhagddo yn tanseilio'r amcanion trwyddedu, yn enwedig o ran atal niwsans cyhoeddus.
Dyddiad gwneud y penderfyniad	30 Ebrill 2025

Terfynwyd y cyfarfod yn 10:30

This page is intentionally left blank

By virtue of paragraph(s) 12 of Part 4 of Schedule 12A
of the Local Government Act 1972.

Document is Restricted

This page is intentionally left blank

By virtue of paragraph(s) 12 of Part 4 of Schedule 12A
of the Local Government Act 1972.

Document is Restricted

This page is intentionally left blank

By virtue of paragraph(s) 12 of Part 4 of Schedule 12A
of the Local Government Act 1972.

Document is Restricted

This page is intentionally left blank

By virtue of paragraph(s) 12 of Part 4 of Schedule 12A
of the Local Government Act 1972.

Document is Restricted

This page is intentionally left blank

By virtue of paragraph(s) 12 of Part 4 of Schedule 12A
of the Local Government Act 1972.

Document is Restricted

This page is intentionally left blank

By virtue of paragraph(s) 12 of Part 4 of Schedule 12A
of the Local Government Act 1972.

Document is Restricted

This page is intentionally left blank

By virtue of paragraph(s) 12 of Part 4 of Schedule 12A
of the Local Government Act 1972.

Document is Restricted

This page is intentionally left blank